Sunday the 1st of November 2026
+ The Feast of All Saints'

The collect of the day

Almighty God, you have knit together your elect in one communion and fellowship in the mystical body of your Son Christ our Lord: grant us grace so to follow your blessed saints in all virtuous and godly living that we may come to those inexpressible joys you have prepared for those who truly love you; through Jesus Christ your Son our Lord, to whom with you and the Holy Spirit, be the kingdom, the power and the glory, for ever and ever. AMEN

A reading from Revelation
(7.9-17)

After this I looked, and there was a great multitude that no one could count, from every nation, from all tribes and peoples and languages, standing before the throne and before the Lamb, robed in white, with palm branches in their hands. They cried out in a loud voice, saying, "Salvation belongs to our God who is seated on the throne, and to the Lamb!"

And all the angels stood around the throne and around the elders and the four living creatures, and they fell on their faces before the throne and worshiped God, singing, "Amen! Blessing and glory and wisdom and thanksgiving and honour and power and might be to our God forever and ever! Amen."

Then one of the elders addressed me, saying, "Who are these, robed in white, and where have they come from?"

I said to him, "Sir, you are the one that knows."

Then he said to me, "These are they who have come out of the great ordeal; they have washed their robes and made them white in the blood of the Lamb. For this reason they are before the throne of God, and worship him day and night within his temple, and the one who is seated on the throne will shelter them. They will hunger no more, and thirst no more; the sun will not strike them, nor any scorching heat; for the Lamb at the centre of the throne will be their shepherd, and he will guide them to springs of the water of life, and God will wipe away every tear from their eyes."

The Psalm
(34.1-10)

I will bless the / LORD at / all times: his praise shall / ever be / in my / mouth. My soul shall glory / in the / LORD: let the / humble / hear and be / glad.

O magnify the / LORD with / me: let us ex/alt his / name to/gether. I sought the LORD / and he / answered me: and de/livered me from / all my / fears.

Look upon him / and be / radiant: and your faces / shall not / be a/shamed. This poor soul cried, and the / Lord / heard me: and / saved me from / all my / troubles.

The angel / of the / LORD: encamps around those who / fear him / and de/livers them. O taste and see that the / LORD is / gracious: blessed is the / one who / trusts in / him.

Fear the LORD, all / you his / holy ones: for those who / fear him / lack / nothing. Lions may lack and / suffer / hunger: but those who seek the LORD lack / nothing / that is / good.

The reading from 1 John
(3.1-3)

See what love the Father has given us, that we should be called children of God; and that is what we are. The reason the world does not know us is that it did not know him.

Beloved, we are God's children now; what we will be has not yet been revealed. What we do know is this: when he is revealed, we will be like him, for we will see him as he is. And all who have this hope in him purify themselves, just as he is pure.

The reading from the Gospel according to Saint Matthew
(5.1-12)

When Jesus saw the crowds, he went up the mountain; and after he sat down, his disciples came to him.

Then he began to speak, and taught them, saying: "Blessed are the poor in spirit, for theirs is the kingdom of heaven.

"Blessed are those who mourn, for they will be comforted.

"Blessed are the meek, for they will inherit the earth.

"Blessed are those who hunger and thirst for righteousness, for they will be filled.

"Blessed are the merciful, for they will receive mercy.

"Blessed are the pure in heart, for they will see God.

"Blessed are the peacemakers, for they will be called children of God.

"Blessed are those who are persecuted for righteousness' sake, for theirs is the kingdom of heaven.

"Blessed are you when people revile you and persecute you and utter all kinds of evil against you falsely on my account. Rejoice and be glad, for your reward is great in heaven, for in the same way they persecuted the prophets who were before you."

The collect following communion

God, the source of all holiness and giver of all good things: may we who have shared at this table as strangers and pilgrims here on earth be welcomed with all your saints to the heavenly feast on the day of your kingdom; through Jesus Christ our Lord. AMEN



Text from the Church in Wales – Word of the Lord 2011 copyright © Church in Wales Publications 2011. Collects and Post Communion Prayers from the book *New Calendar and the Collects*. Copyright © The Representative Body of the Church in Wales 2003 ISBN – 1853115495. Quotations and Psalms from *The New Revised Standard Version (Anglicized Edition)*, copyright 1989, 1995 by the Division of Christian Education of the National Council of the Churches of Christ in the United States of America. Used as permitted.

I[af] Tachwedd
+ Yr Holl Saint

Colect y dydd

Hollalluog Dduw, cysylltaist ynghyd dy etholedigion yn un cymundeb a chymdeithas yn nirgel gorff dy Fab, Crist ein Harglwydd: caniatâ i ni ras i ddilyn dy saint gwynfydedig mewn buchedd rinweddol a duwiol fel y delom i'r llawenydd anhraethol hwnnw a baratoaist i'r rhai sy'n dy wir garu; trwy Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd, i'r hwn gyda thi a'r Ysbryd Glân y bo'r deyrnas, y gallu a'r gogoniant, yn oes oesoedd. AMEN

Darlleniad o Ddatguddiad
(7.9-17)

Ar ôl hyn edrychais, ac wele dyrfa fawr na allai neb ei rhifo, o bob cenedl a'r holl lwythau a phobloedd ac ieithoedd, yn sefyll o flaen yr orsedd ac o flaen yr Oen, wedi eu gwisgo â mentyll gwyn, a phalmwydd yn eu dwylo. Yr oeddent yn gweiddi â llais uchel: "I'n Duw ni, sy'n eistedd ar yr orsedd, ac i'r Oen y perthyn y waredigaeth!"

Yr oedd yr holl angylion yn sefyll o amgylch yr orsedd a'r henuriaid a'r pedwar creadur byw, a syrthiasant ar eu hwynebau gerbron yr orsedd ac addoli Duw gan ddweud: "Amen. I'n Duw ni y bo'r mawl a'r gogoniant a'r doethineb a'r diolch a'r anrhydedd a'r gallu a'r nerth byth bythoedd! Amen."

Gofynnodd un o'r henuriaid imi, "Y rhai hyn sydd wedi eu gwisgo â mentyll gwyn, pwy ydynt ac o ble y daethant?"

Dywedais wrtho, "Ti sy'n gwybod, f'arglwydd."

Meddai yntau wrthyf, "Dyma'r rhai sy'n dod allan o'r gorthrymder mawr; y maent wedi golchi eu mentyll a'u cannu yng ngwaed yr Oen. Am hynny, y maent o flaen gorsedd Duw, ac yn ei wasanaethu ddydd a nos yn ei deml, a bydd yr hwn sy'n eistedd ar yr orsedd yn lloches iddynt. Ni newynant mwy ac ni sychedant mwy, ni ddaw ar eu gwarthaf na'r haul na dim gwres, oherwydd bydd yr Oen sydd yng nghanol yr orsedd yn eu bugeilio hwy, ac yn eu harwain i ffynhonnau dyfroedd bywyd, a bydd Duw yn sychu pob deigryn o'u llygaid hwy."

Y Salm
(34.1-10)

Bendithiaf yr ARGLWYDD bob amser; bydd ei foliant yn wastad yn fy ngenau. Yn yr ARGLWYDD yr ymhyfrydaf; bydded i'r gostyngedig glywed a llawenychu.

Mawrygwch yr ARGLWYDD gyda mi, a dyrchafwn ei enw gyda'n gilydd. Ceisiais yr ARGLWYDD, ac atebodd fi a'm gwaredu o'm holl ofnau.

Y mae'r rhai sy'n edrych arno'n gloywi, ac ni ddaw cywilydd i'w hwynebau. Dyma un isel a waeddodd, a'r ARGLWYDD yn ei glywed ac yn ei waredu o'i holl gyfyngderau.

Gwersylla angel yr ARGLWYDD o amgylch y rhai sy'n ei ofni, ac y mae'n eu gwaredu. Profwch, a gwelwch mai da yw'r ARGLWYDD. Gwyn ei fyd y sawl sy'n llochesu ynddo.

Ofnwch yr ARGLWYDD, ei saint ef, oherwydd nid oes eisiau ar y rhai a'i hofna. Y mae'r anffyddwyr yn dioddef angen ac yn newynu, ond nid yw'r rhai sy'n ceisio'r ARGLWYDD yn brin o ddim da.

Darlleniad o 1 Ioan
(3.1-3)

Gwelwch pa fath gariad y mae'r Tad wedi ei ddangos tuag atom: cawsom ein galw yn blant Duw, a dyna ydym. Y rheswm nad yw'r byd yn ein hadnabod ni yw nad oedd yn ei adnabod ef.

Gyfeillion annwyl, yn awr yr ydym yn blant Duw, ac nid amlygwyd eto beth a fyddwn. Yr ydym yn gwybod, pan fydd ef yn ymddangos, y byddwn yn debyg iddo, oherwydd cawn ei weld ef fel y mae. Ac y mae pob un y mae'r gobaith hwn ganddo, yn ei buro ei hun, fel y mae Crist yn bur.

Darlleniad Efengyl ôl Sant Mathew
(5.1-12)

Pan welodd Iesu y tyrfaoedd, aeth i fyny'r mynydd, ac wedi iddo eistedd i lawr daeth ei ddisgyblion ato. Dechreuodd eu hannerch a'u dysgu fel hyn:

"Gwyn eu byd y rhai sy'n dlodion yn yr ysbryd, oherwydd eiddynt hwy yw teyrnas nefoedd.

"Gwyn eu byd y rhai sy'n galaru, oherwydd cânt hwy eu cysuro.

"Gwyn eu byd y rhai addfwyn, oherwydd cânt hwy etifeddu'r ddaear.

"Gwyn eu byd y rhai sy'n newynu a sychedu am gyfiawnder, oherwydd cânt hwy eu digon.

"Gwyn eu byd y rhai trugarog, oherwydd cânt hwy dderbyn trugaredd.

"Gwyn eu byd y rhai pur eu calon, oherwydd cânt hwy weld Duw.

"Gwyn eu byd y tangnefeddwyr, oherwydd cânt hwy eu galw'n blant i Dduw.

"Gwyn eu byd y rhai a erlidiwyd yn achos cyfiawnder, oherwydd eiddynt hwy yw teyrnas nefoedd.

"Gwyn eich byd pan fydd pobl yn eich gwaradwyddo a'ch erlid, ac yn dweud pob math o ddrygair celwyddog yn eich erbyn, o'm hachos i. Llawenhewch a gorfoleddwch, oherwydd y mae eich gwobr yn fawr yn y nefoedd; felly yn wir yr erlidiwyd y proffwydi oedd o'ch blaen chwi."

Defynddir gweddi ôl-ynghyd

Dduw, ffynhonnell pob sancteiddrwydd a rhoddwr pob peth da, boed i ni sydd wedi cyfranogi wrth y bwrdd hwn fel dieithriaid a phererinion yma ar y ddaear gael ein croesawu gyda'th holl saint i'r wledd nefol ar ddydd dyfodiad dy deyrnas; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. AMEN

Testun allan o Gair yr Arglwydd 2011 – yr Eglwys yng Nghymru. Hawlfraint Cyhoeddiadau'r Eglwys yng Nghymru 2011. Colectau a Gweddïau Ôl-Gymun o'r llyfr *Y Calendr Newydd a'r Colectau* Hawlfraint Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru 2003 ISBN – 1853115495. Dyfyniadau a Salmau trwy ganiatâd o'r *Beibl Cymraeg Newydd Diwygiedig 2004*
Cymdeithas (Brydeinig a Thramor) y Beibl. Cedwir pob hawl.